

# Academi Arweinyddiaeth Celedlaethau'r Dyfodol

**2023 - 2024**

Rhagair

# Ysbrydoli arweinwyr y dyfodol Cymru



O'r eiliad y clywais am Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, roeddwn i'n gwybod ei fod yn rhywbeth yr oeddwn am ei barhau drwy gydol fy nhymor fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Ni fu erioed mor bwysig datblygu arweinwyr yfory fel hyrwyddwyr cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf wedi galw am newid brys, trawsnewidiol, ac mae ein pobl ifanc yn hollbwysig er mwyn gwireddu'r newid hwnnw.

Ein nod yw meithrin yr hyder a'r gwytnwch yn ein harweinwyr i wneud y penderfyniadau anodd dros ein pobl a'n planed, meddwl yn feirniadol am dueddiadau'r Byd, a defnyddio ein dealltwriaeth o'r dyfodol i lywio ein penderfyniadau heddiw.

Mae aelodau o'n rhwydwaith cyn-fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhell ar ôl iddynt raddio o'r Academi. O siarad yn COP a'r Cenhedloedd Unedig, i ddod yn gydlynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, i gyfarfod â swyddogion y llywodraeth o dramor, mae ein cyn-fyfyrwyr wedi profi nad arweinwyr yfory ydyn nhw, ond arweinwyr heddiw.

Eleni fydd y trydydd rhifyn o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n argoeli i fod y gorau eto.

Mewn adolygiad annibynnol a lansiwyd ar ddiwedd yr academi y llynedd, dywedodd 96% o'r aelodau eu bod yn hyderus yn eu gallu i egluro pwrpas a gweithrediadau'r nodau llesiant Cymru tra bod 88% yn hyderus yn herio ffyrdd traddodiadol o weithio yn eu gweithle ac 80% yn teimlo y gallent herio penderfyniadau a wnaed eisoes.

Rydym wrth ein bodd bod 100% o reolwyr llinell wedi datgan bod cymryd rhan yn yr Academi wedi cefnogi arweinyddiaeth y cyfranogwr y maent yn rheolwr llinell arno, a byddent yn argymell y rhaglen i eraill.

Rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau annibynnol o'n rhaglenni academi yn y gorffennol i adeiladu ar y llwyddiant hwn.

Rydym yn gweld newid mewn gwerthoedd o genhedlaeth i genhedlaeth. O'r ffordd yr ydym yn gweithio, i'r cynnyrch a ddefnyddiwn, mae ein harweinwyr y dyfodol yn blaenoriaethu llesiant Cymru a chenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid i'r safbwyntiau hyn arwain ein dealltwriaeth o'r dyfodol fel ein bod yn gwneud penderfyniadau teg rhwng cenedlaethau; dyna pam rwy'n falch bod aelodau ein hacademi yn dod yn rhan o deulu cenedlaethau'r dyfodol ac yn hanfodol i siapio'r gwaith a wnawn.

Byddai'n bleser gennyf eich croesawu chi a'ch sefydliad i drydydd rhifyn Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Gadewch i ni newid y dyfodol gyda'n gilydd.**

## Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

# Croeso i Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

**Annwyl Ddarpar Gyfranogwr,**

Mae Academi Arwain Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhaglen arweinyddiaeth â gweledigaeth a arweinir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Ein hymrwymiad yw cefnogi ac ysbrydoli arweinwyr y dyfodol yng Nghymru ar eu taith i gyflawni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a gwella eu sgiliau arwain.

Wrth i ni gychwyn ar ein trydedd flwyddyn, mae'r rhaglen arweinyddiaeth uchelgeisiol ac arloesol hon yn dod â phartneriaid o bob rhan o sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol Cymru at ei gilydd, gan gydweithio i hyfforddi unigolion ifanc o bob cornel o Gymru mewn datblygu arweinyddiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn dilyn dwy garfan lwyddiannus ers 2021, mae eleni yn addo profiadau a chyfleoedd mwy trawsnewidiol fyth ar gyfer twf a datblygiad.

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yw eich platfform i ddatgloi eich potensial arweinyddiaeth, cael effaith barhaol, a chreu gwell yfory.

Gwahoddir graddedigion yr academi i ymuno â'n rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr yr academi, lle bydd ein tîm yn parhau i'ch cefnogi yng nghamau nesaf eich gyrfa.

Ymunwch â ni ar y daith ryfeddol hon o arweinyddiaeth a chyfrannu at lunio dyfodol Cymru.

**Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi!**

**Korina Tsioni**
Ysgogwr Newid Arweinwyr y Dyfodol



FGCA Alumni, Ffocws Ein Dyfodol, Mai 2023

# Beth ddylwn i ei ddisgwyl?

Mae Rhaglen Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-24 yn cynnwys cwricwlwm sy'n seiliedig ar saith nod llesiant a phum dull o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn cyflenwi 60-70 awr a ddarperir yn rhithwir, ac eithrio ar gyfer 2-3 digwyddiad rhwydweithio personol. Bydd digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal ledled Cymru a bydd eich costau teithio yn cael eu talu.

Bydd tîm yr Academi yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylunio ac yn darparu'r rhaglen, gyda chymorth gan bartneriaid allanol a Grŵp Cynghori'r Academi. Bydd ein cyfranogwyr (tua 35 o bobl rhwng 18-30 oed) yn cael eu recriwtio trwy nawdd sefydliadol a chytundebau partneriaeth a hefyd trwy broses ddethol agored.

Bydd cymorth 1-1 ar gael i bawb sy'n cymryd rhan yn yr academi os bydd eich amgylchiadau'n newid yn ystod yr academi a bod angen cymorth arnoch.

**Bydd y rhaglen yn rhedeg o fis Medi 2023 tan fis Mawrth 2024.**

Mae **cronfa hygyrchedd hyblyg** ar gael i gyfranogwyr a all brofi rhwystrau ariannol neu rwystrau eraill sy'n effeithio ar eu cyfranogiad mewn digwyddiadau rhithiol neu wyneb yn wyneb.

Er enghraifft, os ydych yn ofalwr, neu'n berson anabl, byddwn yn ymdrin ag unrhyw un o'r anghenion a allai fod gennych er mwyn gwneud cais llwyddiannus a chymryd rhan yn yr academi.



Cyn-fyfyrwyr AACD, digwyddiad 100 Ysgogwyr Newid - Ionawr 2023


Dan Tram, Carfan 2019-2020

# Llinell Amser Academi 3.0

| | |
|---|---|
| Mehefin - Awst **2023** | Recriwtio cyfranogwyr. |
| Medi | Lansio rhaglen 7 mis.<br>Encil 2 ddiwrnod yng Ngogledd neu Canolbarth Cymru (14-15 Medi) |
| Hydref | Dwy sesiwn 2 awr ar-lein. |
| Rhagfyr | Encil 2 ddiwrnod yng Ngorllewin Cymru (dechrau Rhagfyr) |
| Ionawr - Chwefror **2024** | Parhad o'r rhaglen - 2 awr sesiwn bob pythefnos.<br>Cyflwyno cynllun gweithredu a chynllun mentora gwrthdro. |
| Mawrth | Dysgu sylfaen wedi'i gwblhau (sesiwn 1 diwrnod wyneb yn wyneb). |

# Y rhaglen

**Mae cwricwlwm yr academi wedi'i gynllunio i ddatblygu potensial arweinyddiaeth y cyfranogwyr ac mae'n cwmpasu saith piler.**

Mae ein dull hybrid yn cynnwys 3 sesiwn breswyl, ledled Cymru

Rydym yn ymdrin â'r holl anghenion llety, cymudo ac arlwyo a allai fod gennych!

Mae gennym hefyd sesiynau rhyngweithiol ar-lein bob pythefnos i gadw'r momentwm i fynd ac i wneud yn siŵr ein bod yn ymdrin â phopeth!

Bydd pob sesiwn yn cael ei recordio i sicrhau na fydd unrhyw gyfranogwr yn colli allan. Bydd y rhan fwyaf o sesiynau ar-lein yn digwydd yn y boreau neu'r prynhawniau ar ddiwrnodau'r wythnos a byddant yn para hyd at 2 awr.


Graddio 2021-2022

# Y Cwricwlwm

**1. Cynefino**
sesiynau dal i fyny ar-lein a digwyddiad gosod golygfa yn eich cyflwyno i wahanol elfennau o'r rhaglen, tîm yr Academi, ac elfennau allweddol o'r rhaglen.

**2. Cyflwyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiynydd**
Trwy ddysgu am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol byddwch wedi'ch paratoi'n dda i wneud y gorau o'ch amser gyda'r Academi.

**3. 7 Nod Llesiant y Ddeddf**
Sesiynau allweddol yn ymdrin â dibenion craidd Deddf LlCD a hwyluso dysgu a chwestiynau ynghylch y saith nod llesiant.

**4. Y 5 Dull o Weithio**
Sesiynau allweddol i sicrhau eich bod yn gallu symud yn hyderus i elfen Cynllun Gweithredu'r rhaglen, byddwn yn deall yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol beth yw pob un o'r pum dull o weithio.


Bleddyn Harris, Carfan 2019-2020

**5. Cynlluniau Gweithredu**
Rhan greiddiol o raglen yr Academi yw datblygu Cynlluniau Gweithredu

Mae hyn yn digwydd yn ystod y rhaglen ac mae'n canolbwyntio ar gefnogi cyfranogwyr i adeiladu ar hynny a gweithredu'r dysgu a ddatblygwyd drwy'r Academi i ysgogi newid yn eu sefydliadau neu gymunedau eu hunain.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'ch rheolwyr llinell, os ydynt yn ymrwymo i wneud hynny, er mwyn creu cynllun realistig a chyraeddadwy.

Bydd datblygiad y cynllun yn parhau wrth i chi symud i mewn i'r Rhwydwaith cyn-fyfyrwyr yr Academi.

Y llynedd roedd gennym gynlluniau gweithredu gyda phynciau fel:

- Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn unol â Deddf LlCD
- Ymgorffori Cymraeg yn well
- Hyrwyddo tegwch a chynhwysiant unigolion o amrywiol
- cymunedau
- Datblygu 'Strategaeth Addasu Hinsawdd'


Jia Wei Lee, Carfan 2021-2022

# Y Cwricwlwm (parhad)

### 6. Pwerau Gwych

Gweithdai i uwchsgilio a datblygu hyder cyfranogwyr mewn Arwain Eu Hunain ac Eraill.

Y prif themâu fydd:

- Arwain gydag Eraill (Deall yr Hunan ac Eraill)
- Arwain Eich Hun (gan gynnwys Brandio Personol / gweithle hybrid / gweithio hyblyg)
- Arwain gydag Empathi (Deallusrwydd Emosiynol, Gwydnwch a Methu'n Dda)
- Arwain y Dyfodol (gan gynnwys tueddiadau'r dyfodol, ansicrwydd, data ac AI)
- Arwain Newid (Dylanwadu ar Eraill, Cyflwyno, Perswadio a Negodi)

### 7. Graddio

Digwyddiad hwyliog, rhyngweithiol a dathliadol i ddod â phawb at ei gilydd! Cyfle i rwydweithio, byddwch yn cael cyfarfod â'ch mentoreion ac arddangos eich cynlluniau gweithredu!

Ar ôl graddio byddwn yn gwahodd cyfranogwyr i ymuno â'n rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr.

***"Mae'r sesiynau hyd yma wedi fy ysbrydoli i ddod allan o'm parth cysur ychydig a chael yr hyder i godi llais mewn cyfarfodydd.***

***Mae datblygu fy hyder wrth siarad â dieithriaid a phobl sy'n "uwch i fyny" na fi fy hun yn rhywbeth y mae angen i mi ei wneud."***

# Gweithgareddau yr Alumni

Mae cyfranogwyr o'r academïau blaenorol wedi ffurfio Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr AACD sy'n cyfarfod yn chwarterol â thîm Cenedlaethau'r Dyfodol a'r nod yw:

- darparu cymuned o ymarfer, a chyfle i gyfnewid rhwng cyfoedion ynghylch datblygu cynaliadwy ac arweinyddiaeth
- sicrhau bod safbwynt cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei ddal wrth ddatblygu strategaeth a chynllun gwaith y Comisiynydd
- hwyluso cyfleoedd i'r cyn-fyfyrwyr ddod yn llysgenhadon ar gyfer Deddf LlCD ac i Gymru ar ddatblygu cynaliadwy

Bydd graddedigion academïau'r presennol a'r dyfodol yn cael eu **gwahodd i ymuno â rhwydwaith y cyn-fyfyrwyr**, a bydd y rhwydwaith hwn yn tyfu bob blwyddyn, gan ffurfio **rhan allweddol** o'r **mudiad dros newid** ar gyfer llesiant a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.




Cyn-fyfyrwyr yn mynychu COP26 yng Nglasgow

# Gweithgareddau Alumni *(Parhad)*

| | |
|---|---|
| **2024**<br><br>Maw - Awst | Rhoi Cynllun Gweithredu ar waith.<br><br>Cynllun mentora gwrthdro yn fyw (5 sesiwn). |
| Medi | Parhad gweithgareddau yr Alumni.<br><br>Lansio Academi 4.0. |

### Mynychu Digwyddiadau

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae aelodau cyn-fyfyrwyr wedi cyflwyno ac ymuno ag ystod o ddigwyddiadau, seremonïau a fforymau gan gynnwys:

- Seremoni agoriadol **Cynulliad Amgylchedd Ieuenctid y Cenhedloedd Unedig**
- **Fforwm Cenedlaethau'r Dyfodol** Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolodd pum cyn-fyfyriwr Lywodraeth Cymru yn **Uwchgynhadledd One Young World** ar-lein yn 2021 a phedwar o gyn-fyfyrwyr eraill yn mynychu **Uwchgynhadledd One Young World 2022** ym **Manceinion**
- Cyfarfodydd gyda gweinidogion rhyngwladol gan gynnwys **cyfarfod â Dr Florian Stegmann, Gweinidog Gwladol Baden-Wurttemburg**
- Ymuno â **Rhaglen Arweinyddiaeth Llysgenhadaeth yr Unol Daleithiau**
- Mynychu a siarad yn **COP26** yng **Nglasgow**


### Mentora gwrthdro ar gyfer cyn-fyfyrwyr

Dyma eich cyfle i gyfarfod a mentora uwch arweinydd yng Nghymru!

Ar ôl dod i'ch adnabod a phan fyddwch yn barod gyda'r holl sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch wrth i chi symud i mewn i rwydwaith y Cyn-fyfyrwyr, byddwn yn eich paru ag uwch arweinydd yng Nghymru! Gallai hwn fod yn Brif Weithredwr, yn Gyfarwyddwr, yn Gomisiynydd, yn Arweinydd Elusen neu'n Arweinydd Cyngor.

Mae 31 o berthnasoedd mentora gwrthdro wedi digwydd yn rhaglen flaenorol yr Academi, gan ysbrydoli cydweithio ar draws gwahanol sectorau a sefydliadau.

Mae dadansoddiad yn dangos, oherwydd yr Academi, bod unigolion a thimau ar draws sectorau Cymru, nad oedd rhai ohonynt erioed wedi cysylltu o'r blaen, wedi cydweithio'n agosach i ddatrys problemau a datblygu yn unol â Deddf LlCD.



Cyn-fyfyrwyr yn cyfarfod Dr Florian Stegmann, Gweinidog Gwladol Baden-Wurttemburg



Carfan 2021-2022 yn mynychu One Young World 2022 ym Manceinion

# Pam ddylwn i ymuno?

Datgloi a chryfhau eich sgiliau arwain.

Cyflawni nodau personol a phroffesiynol.

Dysgu popeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi dod yn gonglfaen llunio polisi yng Nghymru.

Rhwydweithio a gwneud cysylltiadau â phobl ledled Cymru.

Byddwch yn rhan o'n rhwydwaith Alumni, sy'n darparu cyfleoedd parhaus i raddedigion yr academi gymryd rhan mewn llunio polisïau datblygu cynaliadwy a thrafodaethau ar gyfer Llysgenhadon y Ddeddf yng Nghymru, y DU a gweddill y byd!

Adeiladu mudiad dros newid ar gyfer y Ddeddf ledled Cymru, yn eich cymuned neu sefydliad!

# Beth ddywedodd cyfranogwyr blaenorol wrthym:

## 96%

- yn hyderus yn eu gallu i egluro pwrpas a gweithrediadau Deddf LlCD i gydweithwyr a'u cymuned, gyda **76% yn profi gwelliant yn eu gallu i wneud hyn.**
- yn dweud eu bod yn dda am ddechrau sgyrsiau gydag eraill o gefndiroedd gwahanol.
- yn teimlo eu bod yn deall eu braint eu hunain.
- yn dweud fod eu rhwydwaith bellach yn cynnwys pobl o ystod amrywiol o sectorau a chefndiroedd gwahanol.

## 88%

yn hyderus wrth herio ffyrdd traddodiadol o weithio o fewn eu gweithle.

## 80%

yn teimlo eu bod yn gallu herio penderfyniadau sydd eisoes wedi eu gwneud, gyda **76% yn gweld gwelliant yn y maes hwn.**


## 72%

yn profi gwelliant yn eu gallu i ymarfer Cymru Fwy Cyfartal yn eu gwaith

## 100%

- o'r garfan yn dweud eu bod bellach yn teimlo bod Arweinyddiaeth "*yn ymwneud â datblygu eraill*".
- o reolwyr llinell fod cymryd rhan yn yr Academi wedi cefnogi arweinyddiaeth y cyfranogwr y maent yn rheolwr llinell arno ac y byddent yn argymell y rhaglen i eraill

# Ein cyfranogwyr blaenorol




**48%** o gyfranogwyr riant nad oedd wedi mynychu'r Brifysgol.

**Nododd 24% o'r cyfranogwyr fod ag anabledd, gwendidau neu anghenion ychwanegol.**



**30%** o gyfranogwyr a nodwyd fel LHDTQ+.

**Roedd gan 5 cyfranogwr gyfrifoldebau gofalu ac roedd 1 yn gadael gofal.**



**28%** o gyfranogwyr yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

*"Mae clywed am deithiau pobl eraill a chwrdd â'r tîm ehangach wedi dangos i mi fy mod i'n gallu llawer mwy nag yr ydw i'n meddwl."*

# Cwrdd â'r tîm



## Jonathan Tench

### Ysgogwr Newid Partneriaethau a Rhwydweithiau

Mae Jonny yn meddwl bod Cymru'n mynd i newid y byd - drwy ddangos sut mae'n bosib brwydro yn erbyn anghydraddoldeb cymdeithasol a newid hinsawdd i gyd ar yr un pryd. Mae'n siaradwr Cymraeg.

Mae'n arwain gwaith rhyngwladol y tîm, yn arwain ar ymgysylltu â'r sector preifat ac Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Jonny eisoes wedi gweithio mewn rolau rhyngwladol ar ddatblygu cynaliadwy ar gyfer rhaglenni systemau bwyd Unilever, Oxfam ac ar gyfer rhaglenni systemau bwyd y Cenhedloedd Unedig. Mae Jonny yn aelod o gôr Technicolour Caerdydd a bydd yn ceisio eich cofrestru i'r côr os ydych chi'n hoffi sioeau cerdd.



## Korina Tsioni

**Ysgogwr Newid Arweinwyr y Dyfodol**

Korina yw Ysgogwr Newid Arweinwyr y Dyfodol ac mae'n canolbwyntio ar waith Academi Arweinwyr y Dyfodol.

Mae'r Academi yn gweithio gydag amrywiaeth o noddwyr, partneriaid a chyfranogwyr ledled Cymru, i sicrhau bod pob sector yn ymgorffori Deddf LlCD yn eu gwaith a bod gan arweinwyr y dyfodol yr holl wybodaeth, sgiliau a chefnogaeth sydd eu hangen arnynt i wneud y byd yn lle gwell!

Mae Korina yn angerddol am degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac mae'n caru celf! Mae hi'n rhedeg busnes digwyddiadau cerddoriaeth y byd ar yr ochr, gyda'r nod o uno a dathlu gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru, ac mae'n rhedeg ac yn perfformio mewn band gwerin Groegaidd hefyd!



## Najma Hashi

**Swyddog Cynorthwyol Ysgogi Newid**

Mae Najma yn gweithio ar raglen ryngwladol ein swyddfa sy'n ceisio hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac yn rheoli Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr ein Hacademi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Najma yn angerddol am wneud Cymru'n fwy cyfartal ac roedd yn rhan o Dasglu Cydraddoldeb Hil Cyngor Caerdydd ac yn mentora myfyrwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ifanc o Dde Caerdydd.

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Leadership Academy

# Academi Theori Newid a'r effaith rydym am ei chael

## Gweithgareddau ac Allbynnau

1. Recriwtio set amrywiol o arweinwyr ifanc
2. Mae rhaglen yr Academi yn darparu:
    - Hyfforddiant arweinyddiaeth a sgiliau ar DLlCD
    - Mynediad at ymarferwyr Deddf LlCD
    - Cyngor i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Deddf LlCD ar gyfer eu sefydliad,
    - sector neu gymuned
    - Cefnogaeth i adeiladu rhwydwaith o gyfoedion ac ymarferwyr Deddf LlCD
3. Creu Rhwydwaith Alumni i gynnal rhwydwaith cymheiriaid ar weithrediad Deddf LlCD a hwyluso cyn-fyfyrwyr i gynghori cyrff cyhoeddus/sector preifat/gwirfoddol ar Ddeddf LlCD

## Cyfranogwyr / Sefydliadau / Mentoreion

Deall

- arweinyddiaeth dda
- sut i roi Deddf LlCD ar waith
- sut i ddefnyddio rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid Deddf LlCD
- ymuno â Rhwydwaith Alumni i barhau i ddatblygu arweinyddiaeth
- gwell dealltwriaeth o sut i weithredu'r Ddeddf LlCD

## Canlyniadau Tymor Hir

- Mae Cyn-fyfyrwyr AACD yn cymhwyso eu gwybodaeth am DLlCD o fewn eu sefydliadau, sector neu gymuned
- Cyn-fyfyrwyr yr Academi yn cael eu recriwtio i swyddi arweinydd/bwrdd
- Mae sefydliadau sy'n cymryd rhan/Mentoreion Gwrthdro yn defnyddio cyngor DLlCD a gânt

## Effaith

- Sefydliadau Cyhoeddus/Preifat/Gwirfoddol yn gwneud cynnydd o ran rhoi Deddf LlCD ar waith

# Mae ceisiadau nawr ar agor!

Mae rhaid i'n holl ymgeiswyr sy'n gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser **gadarnhau**:

1. Bod ganddynt yr **argaeledd** i gymryd rhan yn y rhaglen
2. Bod eu rheolwr llinell neu eu sefydliad yn **cymeradwyo** eu cyfranogiad yn yr Academi.

Ymgeisiwch nawr!

Rhaid i ni gadarnhau bod eich rheolwr llinell yn cymeradwyo eich cyfranogiad gan y byddwn yn gofyn i'ch rheolwr llinell neu gynrychiolydd yn eich sefydliad eich helpu i **nodi ardal ffocws ar gyfer cynllun gweithredu** y byddwch yn ei ddatblygu yn ystod yr Academi.

Byddwn hefyd yn gofyn i'ch rheolwr llinell neu i'ch sefydliad i gwblhau **arolwg byr iawn ar eich datblygiad arweinyddol** ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen.

Nodwch os gwelwch yn dda bod gennym **gronfa hygyrchedd i roi cymorth i unrhyw un sydd ag anghenion gofal neu sy'n wynebu rhwystrau ariannol** i gymryd rhan yn y rhaglen, felly os gwelwch yn dda, ymgeisiwch, ac os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn trafod unrhyw faterion hygyrchedd gyda chi.

Rydym hefyd yn gweithredu **Cynllun Gwarantu Cyfweliad** ar gyfer **pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl** sy'n ymateb i bob un o'r cwestiynau yn y ffurflen gais.

Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r ffurflen gais ar y platfform.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:**
**Korina Tsioni - Arweinydd Academi 3.0**
Korina.tsioni@cenedlaethaurdyfodol.cymru




# Gadewch i ni newid y dyfodol gyda'n gilydd.

cenedlaethaurdyfodol.cymru/academi-arweinyddiaeth